

**Cyngor Cymuned Bontnewydd**  
**COFNODION CYFARFOD MISOL**  
**Gorffennaf 19<sup>eg</sup> 2012; 7 o'r gloch, Y Ganolfan, Bontnewydd**

**PRESENNOL :**

Mr Hywel Williams, AS, ar ddechrau'r cyfarfod gyda'r Cynghorydd Erddyn Davies, Cadeirydd a'r Cynghorwyr Ifor D. Williams, Eddie Hughes, Sioned Williams, Emyr Williams a Geraint R. Jones. Hefyd yn bresennol oedd Mr Bryn Hughes y Clerc

**CYFLWYNIAD GAN MR HYWEL WILLIAMS, AS.**

Fe ddechreuwyd y noson gyda cyflwyniad gan Mr Hywel Williams, AS. Yn ei gyflwyniad, fe ddywedodd ei fod yn hapus iawn i godi materion sy'n effeithio ar faterion lleol yn Llundain. Aeth i siarad ychydig am faterion cafodd ei godi ymysg aelodau'r clymblaid, yn arbennig Ty'r Arglwyddi, ac y newidiadau arfaethedig yn etholaethau, ble fydd angen o leiaf 75,000 o etholwyr , a sut fydd hynny yn effeithio ar ei etholaeth ef. Fe drafododd ychydig am ddiweithdra sydd wedi codi yng Nghymru ac yn uchel iawn yn yr ardal yma, ac effeithiau'r newidiadau wnaethpwyd gan Scottish Power, a'i frwydr i geisio diogelu'r gweithwyr lleol rhag colli swyddi. Yn y sesiwn gofyn cwestiynnau, fe godwyd y mater o'r difrod i'r gwifrau teleffon a'r effaith sydd ar breswylwyr Llanfaglan, yn arbennig yr henoed a bregus sydd yn defnyddio'r sustem teleofal. Cafwyd trafodaeth ynglyn plismona lleol, y troseddau sydd yn effeithio ar y gymuned lleol, ac ymateb yr Heddlu i'r broblem teleffon. Yn olaf, cafwyd trafodaeth ynghylch 'rhanbartheiddio' cyflogau'r sector gyhoeddus, a'r effaith fydd gan hynny ar yr economi lleol. Fe ddiolchodd y Cadeirydd i Mr Williams am ei amser i ddod i siarad gyda'r aelodau a fe adawodd Mr Williams y cyfarfod.

**DATGAN DIDDORDEB / BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb/buddiant personol

**YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Cynghorydd Dafydd Iwan, Rhys Pugh, Chris Hughes, Marian Roberts a Gwyneth Thomas.

**CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Derbynwyd y Cofnodion fel rhai cywir trwy gynnig gan Cynghorydd Geraint R. Jones, a gafodd ei eilio gan Cynghorydd Ifor D. Williams. Dim gwrthwynebiad.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**Trosedd ym Montnewydd :** Ail achos o ddifrod i wifren teleffon.

Mae'r clerch i ail ysgrifennu i'r Prif Gwnstabl gan mai dyma'r ail achos o fewn ychydig o amser.

**Drws yr adeilad wrth ochr Eglwys Llanfaglan :** Prisiau a manylion.

Fe gytunwyd i gyd-ariannu'r gost i osod y drws gyda Cyngor Gwynedd. Yr uchafswm yng nghyfraniad y Cyngor Cymuned yw £300 yn gwneud cyfanswm o £600 gyda chyfraniad y Cyngor Sir.

Cynnigwyd gan Cynghorydd Emyr Williams a gafodd ei eilio gan Cynghorydd Eddie Hughes. Dim gwrthwynebiad.

**Ffordd Osgoi Bontnewydd.**

Cafwyd trafodaeth ynglyn yr erthyglau sydd wedi ei gyhoeddi yn y papurau lleol ynghylch penderfyniad y Cynulliad ar y ffordd osgoi. Cytundeb y mwyafrif o'r aelodau oedd na ddylai'r Cyngor Cymuned rhoi barn ar y dewis a cytunwyd fod y ffordd osgoi yn hanfodol i'r ardal. Dim camau pellach.

**Gwaith atgyweirio'r ffordd yn Stad Glan Beuno**

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i wneud y gwaith atgyweirio a bydd arbennigwr yn cael golwg ar wraidd y goeden sydd yn creu'r broblem.

**Newid dyddiad y cyfarfodydd misol o'r trydydd i'r cyntaf o'r mis**

Fe gytunwyd i newid dyddiad y cyfarfod misol o'r trydydd Dydd Iau I'r Dydd Iau cyntaf o'r mis. Fe gytunwyd yn ogystal i gynnal cyfarfod ym mis Rhagfyr yn hytrach na mis Ionawr fel nad oes angen i'r clerc dreulio gwyliau'r Nadolig yn paratoi Cofnodion ac ati. Mi fydd y cyfarfod cyntaf, gyda'r trefn newydd, yn dechrau Nos Iau, Medi 6ed. Cafwyd y cynnig gan Cynghorydd Ifor D. Williams a gafodd ei eilio gan Cynghorydd Sioned Williams. Dim gwrthwynebiad.

**MATERION ARIANNOL**

**DATGANIAD Y BANC :** Balans hyd at 28 Mehefin 2012 yn £16668.29

**CYNGOR GWYNEDD :** Anfoneb costau etholiad 2012 o £241.50

**CYFLOG A CHOSTAU CLERC :** Mis Gorffennaf 2012 £269.23 Gros £227.63 Net

**CYLLID A THOLLAU EM :** Hysbysiad Cod TWE ar gyfer cyflog y clerc

**WYN WILLIAMS :** Glanhau cysgodfannau bws Ebrill i Gorffennaf 2012 - £213.00

**CYNLLUNIO**

Nid oedd unrhyw gais cynllunio wedi ei dderbyn mis yma.

**GOHEBIAETH**

**ARWYDD LLWYBR BEICIAU A CHERDDWYR – Rhos Bach, Caethro :** Llythyr gan Mr a Mrs Alwyn Jones. Fe drafodwyd llythyr Mr a Mrs Jones a fe gytunwyd fod ganddynt reswm i fod yn anfodlon iawn gyda'r Cyngor Sir. Fe gyfarwyddwyd y clerc i gysylltu a Phennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Mr Gwyn Morris Jones, a gofyn iddo drefnu adleoli'r arwydd.

**MATERION ERAILL**

Dim

**MATERION EITHRIEDIG**

Dim

**10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF :**

Nos Iau cyntaf mis Medi, sef Medi 6ed 2012 yn y Ganolfan, Bontnewydd i gychwyn am 7 o'r gloch.